

Y Siop Siarad Sgwrsio am y Celfyddydau Perfformio yng Nghymru

Fe'ch gwahoddir gan Gymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru (WAPA) a Creu Cymru i gael sgwrs.

Ie, pob un ohonoch chi, nid jest cynrychiolwyr unigol o sefydliadau ond pob wan jac ohonoch chi, yn Annibynwyr, Unigolion, Artistiaid, Cynhyrchwyr, Rhaglenwyr, Marchnatwyr, Addysgwyr, Cyllidwyr, Rheolwyr ac unrhyw un arall sydd ag ots – siawns 'dych chi wedi'i deall hi erbyn hyn.

Rydyn ni'n gwybod bod pawb yn casáu siop siarad, lle mae rhywun 'mond yn siarad a siarad heb fod dim byd yn digwydd, ond bydden ni'n eitha licio gwneud i rywbeth ddigwydd, felly fe ddaethon ni i'r casgliad bod angen siop siarad arnon ni.

Achos meddwl am y dyfodol oedden ni... gall fod yn rhywbeth digon peryg, fel rydyn ni'n gwybod. Mae hefyd yn rhywbeth does gan bawb mo'r amser, y lle na'r egni i feddwl amdano'n aml iawn.

Tra oedden ni wrthi'n meddwl, dechreuon ni gael syniadau a gofyn cwestiynau. Aethon ni dros ben llestri braidd; roedden ni eisiau atebion a dyna pryd roedden ni'n gwybod mai amser paned oedd hi oherwydd bod y sgysiau gorau bob amser yn digwydd o gwmpas cwodyn te neu gwpan coffi - a jest pan fyddwn ni ddim yn ei disgwyl, dyma syniadau a chysylltiadau'n dechrau gwawrio ffŵl sbîd.

Nawr te, dydy'r gegin 'cw ddim yn ddigon mawr i gynnal bore coffi ond mi ydyn ni o'r farn fod gynnwys ni gwestiynau sy'n ddigon pwysig i gyfiawnhau'r angen am sgwrs...

Rydyn ni eisiau siarad am: Eiriolaeth, Hyfforddiant, Teithio, Iaith, Mynediad, Pobl ifainc, Pobl hŷn, Cynulleidfaoedd, Pethau digidol, Cefnogaeth, Rheoli, Sgiliau, Ysgolion, Artistiaid, Sefydliadau, Cyllid, Ymgyrchu, Gwerth...

Mi ddywedais i wrthoch chi i ni fynd dros ben llestri, yn do?

Felly, os hoffech chi siarad am bob un neu unrhyw un o'r pethau hyn, neu am rywbeth sy'n hollol wahanol, dewch i ymuno â ni:

Ddydd Gwener 21 Tachwedd 2014, 10.00
Canolfan Mileniwm Cymru

Mae'r sgwrs yn bwysig; mae WAPA a Creu Cymru wedi bod yn cydweithio dros y 18 mis diwetha ar nifer o raglenni. Erbyn hyn, rydyn ni am grynhoi'r gwaith hwn a deall sut orau y gallwn ni gefnogi sector y Celfyddydau Perfformio wrth symud ymlaen. Y cam cyntaf yw'r siop siarad yma wrth bennu pa fath o gymorth a datblygu strategol fyddai'n fuddiol i'r sector a'r ffordd orau o ddarparu a threfnu hyn i'r dyfodol.



Y siop siarad Sgwrsio am y Celfyddydau Perfformio yng Nghymru

Digwyddiad undydd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru

[Dydd Gwener 21 Tachwedd](#)

9.30 Cyrraedd. Te, Coffi a Bisgedi. Clonc

10.00 Croeso a chyflwyniad i'r sgwrs

10.15 Bant â ni

Bydd y cynrychiolwyr yn ymrannu'n 4 grŵp, pob un yn cael ei gadeirio a'i hwyluso gan aelod o Bwyllgor Gwaith WAPA. Bydd y grwpiau hyn yn canolbwyntio ar heriau ar draws y sector/strategol sy'n wynebu sector y celfyddydau perfformio yng Nghymru a sut orau y gall WAPA a Creu Cymru gefnogi'r sector i gael hyd i atebion.

11.30 Sgwrs a sgwrsio ysbrydoledig â siaradwr gwadd diddorol. I'w gadarnhau

12.30 Cinio

1.30 Gofod Agored

Byddwn yn cynnal digwyddiad gofod agored yn y prynhawn i alluogi cyfranogwyr i sefydlu eu grwpiau trafod eu hunain. Mae hyn hefyd yn cynnig trefn hyblyg sy'n galluogi rhwydweithio a'r posibilrwydd o gael rhai grwpiau trafod/cymorthfeydd penodol iawn os bydd pobl yn dymuno hynny.

3.00 Beth nesa?

Adborth a myfyrio yn sgil sesiwn y bore – dyma gyfle i WAPA a Creu Cymru ystyried y dyfodol a dod yn ôl at y cynrychiolwyr gyda set glir o gamau gweithredu ac awgrymiadau ar gyfer symud ymlaen.

3.30 Gorffen – te a choffi a rhwydweithio

4.00 CCB WAPA

5.00 Y CCB yn dod i ben

- 6.00 Swper – hoffem ddarparu cyfle i gynrychiolwyr i swpera gyda’i gilydd os ydyn nhw eisiau. Ni allwn dalu am swper ond mi wnawn ni awgrymu lleoliad ac archebu lle i’r rheini sy’n rhoi gwybod eu bod am gael bwyd.
- 8.00 Perfformiad gan *Small World Theatre* – Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru

